Cyngor Difrifol

I GADW

DYDD yr ARGLWYDD.

Argraphwyd yn Llundain gan W. Roberts,
ac a werthir gan H. Jones o Langwm,
1763. [Pris 2d]

44
122

CYNGOR Difrifol, &c.

MAE 'n rhaid cyfaddef, fod yn rhaid i ni fawl a fynnom fod yn gadwedig, fod yn dra diwyd a difrifol yn ymdeithio o foddion Jechydwriaeth; Ac am y rheſwm hwnn, mae 'n rhaid iddynt fod yn dra gofalus i wneuthur y deunydd goreu o *Ddydd yn Ddydd*. I hwn ſydd amſer neilldnol tuag at eu hagoriadaeth yſprydol. Megys ag y darfu i Ddaw yn haelionus ganniattau i ni faith o Ddyddiau er cyflawni ein gorchwylion daiarol, felly efe a gadwodd y ſeithfed Dydd iddo ei hun, ac a [illegible] i ni ar y dydd hwnnw i beidio â gwneuthur a difyrrwch cyffredin, fel y gallem ni fod yn ei Eglwys, a derbyn [illegible] dol a thrag wyddol. Ac y mae yn wir y peth yn dangos ini mor rheſymmol, ydyw y bydd ini fy raid byw byth mewn byd arall, cael heibio rann ddyledus o'n hamſer i ymbarotoi ag atto.

Yn gymmaint ag y dylem ar y *Dydd [illegible] bwn*, yn ôl y gallu ſydd ynom, ſoi o gwaneud ein angenrheidiol, modd y gallem fwynhau llawnach cyfundeb â Duw, a phyfuro gorchwyl ein gal-wedigaeth ſanctaidd â llai blinder: A phwy bynnag fy 'n gwneud felly, a gaiff ſanctifiad an-

rhaethadwy ynddo, er ei gyſſur mawr yn fyw ac yn farw: Gan ddarfod i Dduw ddatgan, y rhydd eſe ei ffafrau neilltuol i rheini ſy 'n cadw y Sabbath yn ddyledus.

A phâ garwr o'i enaid et hun à all beidio dal gafael ar gyfleuuſtra mor ſendigedig o ynnill ffafor yr Hôll-alluog Dduw, ac o gael golud ei râs ef a'i drugaredd yn IESU GRIST? Yn eiwedig os yſtyria, na wyddom ni pa nifer cyn lleied o'r dyddiau hyn o Iechydwriaeth a ganniatteir ini, ac mor ddyechrynnadwy ydyw marw yn yr yſgeulaſtra neu 'r halogrwydd o honynt.

Ac na feddylied neb, mae gorchymmyn oedd hwn i'r *Iuddewon* yn unig, ac nad ydyw yn cyfraedd atom ni *Criſtianogion*; yn y gwrthwyneb, yr ym ni yn gweled yn y *Teſtament Newydd*, fod ein Harglwydd yn cadw i ſynu glaiw a theitl yr ſeithfed dydd hyd yn hyn, yr hwn a elwir *Dydd yr Arglwydd*, Datg. Pen. i. Adn. 10. (o achos i'n Harglwydd Bendigedig gyfodi ar y Dydd hwnnw yr hwn, er y prydhynny, a gyflegrwyd yn neilltuol i'r Coffadwriaeth o'i Adgyfodiad) Ac yr ym ni yn darllain ddarfod i'r Apoſtolion ei gadw megys Dydd o ymgynnulliad i waſanaethu Duw yn bublic, ac i finiſtrio y Gair a'r Sacramentau; Act. xx. 7. megys hefyd i wneud caſgliad publ ic i'r *Seintiau* duedd, 1 Cor. xvi. 1, 2. Ac yr ym ni yn darllain, ddarfod i'n bendigedig Iachawdr ymddangos i'w Ddiſgyblion amryw weithiau, ac a'n bendithiodd hwynt ar hwn, ei Ddydd ef, Ioan, pen. xx. adn. 19, 20. Ac eſe a ddanſonodd ei Yſpryd Glân arnynt y Dydd hwn, Act. pen. ii. adn. 4. A chyn

chyn fod y Bendithion a roddwyd ini, trwy adgyfodiad ein Iachawdwr bendigedig (yr hwn yr ym ni, *Griſtianogion*, ar y dydd hwn yn ei goffa) mewn modd rhyfeddol yn rhagori ar weithredoedd y Creadigaeth cyffredin ini gyd a'r *Iuddewon*, neu 'r gwarediad oddiwrth y *Catholicon Iuddewaidd* neilldnol iddynt hwy, nid allwn ni heb ynfydrwydd ac anniolchgarwch mawr iawn, feddwl, fod y rhwymedigaeth foefol o honno wedi peidio. I fod o'r meddwl hwn, ydyw i wrthwynebu yſtyr cyffredin dynol-ryw, ac ordeiniadau ſefydlog ein Rheolwyr yn yr Eglwys a'r Rheolaeth: Ac y mae cymmaint o achos i holl Griſtianogion ymgodi i fynu a gwrthwynebu y cyfryw rai a ewyllyſiant wneud y dydd ſanctaidd hwn o Ddaw yn gyffelyb i ddyddiau cyffredin eraill, ag y fyddae iddynt wrthwynebu y rheini ſydd am dynnu i lawr geulannau y Môr; canys wrth fod pobl yn tori i ſewn ar derfynau y Dydd ſanctaidd hwn, (ordeiniedig i gymmyl ne i gadw i fynu yſtyr o Rinwedd a Chreſydd yn y Byd) lifeiriant o gamwedd ac halogrwydd a lifant i mewn arnom, er anmharchu Duw, a dirmyg i Greſydd, ac a ddygant i lawr Blaau a ffrallodau arnom, yr hyn y mae'n pethyn i bawb leſiair hyd eithaf eu gallu. Ac yr ym ni yn gweled, wrth addefiad troſeddwyr hynod, y rhai a ddygir i'r Crogpren am eu drwg weithredoedd, mai 'r achos pennaf o'u drygioni a'u dinyſtr, oedd ddyledus i'w hanmarch i Ddydd yr Arglwydd.

Megys y darfu, gan hynny, i'n Duw daionus neillduo y Dydd bendigedig hwn i'w Wasanaeth priodol, er ei Ogoniant ei hun, a Daioni dynion cyftal yn y byd hwn a'r hwn sydd i ddyfod; na adéwch ini siommi y dibennion grassusol hyn trwy syrthni, gorchwyl daiarol, neu ddisyrrwch pechadurus: Na adáwn i unrhyw beth cyffredin ein cadw rhag nyned i addoli Duw, naill a'i yn y lòreu neu'r prydnhawn; a gadéwch i gymmaint o'r rhann arall o'r diwrnod ag a allom gael ei dreulio yn nyfoeswnau yr Ystafell a'n Teulu; trwy gatecheisio ein plant a'n gweinidogion, trwy ail-adrodd yr hyn a gofiafom o'r Bregeth trwy ddarllain llyfrau da trwy weddiau, trwy ganu Salmau, a thrwy ymddiddanion duwiol a daionus: Ac os ydyw yr arferion melus a'r bendigedig hyn yn flinderus ac yn anhysryd ini, digon ydyw i'n dyrshrynnu i feddwl mor anghymmwys ydym i'r Nef, lle y mae cariad a moliant Duw yn gwneuthur rhann fawr o'r Wlédd ogoneddus; o ba Wlédd cadwraeth ddyledus o Sabbath Gristianogol ydyw 'r gyffelybiaeth happusaf sy ganddom ni ar y ddaiar.

Ond ymma, ysywaeth! y mae gormod yn ein plith yn prisio yn anesmwyth ar yr attaliadau sanctaidd hyn, ac yn anarferol o naccau iddynt eu hunain unrhyw beth y mae eu calon lygredig yn ei chwennychu ar ddyddiau eraill, ni wyddant pa fodd i attal eu hunain ar y dydd sanctaidd hwn: Ac am nad oes dim blâs o Dduwioldeb oddimewn iddynt, y maent yn suan yn blino arno, ac yn hiraethu am fyned ar ól eu disyrrwch arferol:

rol: Ond ficcr ydyw, nad ydyw 'r fath ddifyr rwch a chwareu Pêl-droed, Pêl-law, Canu, Dawnſio, Campio, Yſcd mewn Tai public, a'r cyffelyb, yn gamniattaus ac yn lwſcdig ar *Ddydd yr Arglwydd*, gan eu bod mor ducddol i gymmeryd ymmaith y difrifwch a'r yſtyr hwnnw o ddwiol-deb, yr hyn ydyw amcan ordinhaad y dydd hwn ei ddcrchafu.

Canys, Frodyr, pa un a'i coelio a'i peidio a wnewch, Duw a *ſendithiodd* ac a *ſanctciddiodd* y dydd hwn; hynny yw, efe a'i neilldúodd i'w Waſanaeth priodol ei hun oddiwrth pob gwaith a gorchwyl daiarol: Ond ni ddylem ni, am y rheſwm hwnnw, ei oſod o'r neilldu er diogi a ſyrthiai, nac etto er difyrrwch a phleſer, llai o lawer er pechu, a phesgi 'r corph, a mwynhau ei chwantau ef a gorwageddau y byd hwn: Canys ni ddarfu ini yn unig ymwrthod â'r rhai hyn yn y Cyfammod ſanctaidd Bedydd, ond y mae 'r dydd hwn hefyd wedi ei neilldno er addoliad ac anrhydedd Duw, a chynnydd yſprydol ein heneidiau, a pharatoad am y Nef: Ac i gôlli y cyfleuuſtra bendigedig o'r dydd hwn, yn bubllc neu 'n breifat, er dibennion bydol a phechadurus, ydyw gwario ein talent yn ofer ac yn gywilyddus, dirmyg eglur o Dduw a'i awdurdod, eſgeluſtra drwg o'n hiechydwriaeth ydyw: A'r cyfryw bobl na choeliant hyn yr awrhon, a ddyſgir i'w goelio mewn modd dychrynnadwy iawn mewn byd arall. Ac yn ſicer, ni chyfrifir monynt yn amgenach, na gelynion Duw, a'u heneidiau eu humain hefyd, fy'n ymwrthod â bendith *Dydd yr Arglwydd*, trwy wneuthur deunydd o hono yn y gwrthwyneb yn

gwbl

gwbl i'w ddiben a'i amcan; mae'n Heglwys yn meddwl fod cadwraeth o *Ddydd yr Arglwydd* o'r fath berthynas, mai ar ol datgan y pedwerydd gorchymmyn, fe a erchir im erfyn ar Ddduw am faddeuant am y cwbl a wnaethom yn erbyn y gyfraith ſanctaidd hon o'i eiddo; ac i weddio y byddai iddo roddi ini ei râs i'n cadw rhag bod yn euog un rmſer dros byth ond hynny o'r cyfryw bechodau gofidus, yn y geiriau llyn: *Arglwydd, trugarha wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw'r Gyfraith hon.*

Ac yn gynmaint a darfod i'n Deddfwr Goruchaf yn y Gyfraith hon, ofyn i'r cyfryw rai ſydd ganddynt *Ddieithriaid o fewn eu pyrth*; hynny yw, ymweledwyr, neu letteuwyr, gymmeryd gofal, na byddai i rheini tan eu Crongiwyd halogi y Dydd ſanctaidd hwn: Ond pa mor fawr y perthyna i'r rheini ſy'n cadw Tafarnau a Thai public gymmeryd gofal na ddêrbyniont gwmpeini i yfed ar y dydd hwn? Canys wrth eu derbyn yno, y maent hwy a'u gweinidogion yn colli y tyſtiolaeth bendigedig o glywed gair y bywyd, yr hwn a ddichon gadw eu henaidiau; ac, heblaw hynny, y maent mewn perygl o golli pob ymyr dderfol o'u dyledwydd tuag at Dduw, eu cymmydog, a hwynt hwy eu hunain. Ac y mae'n rhaid i Feiſtriaid y Tafarnau hyn atteb i Dduw am unrhyw halogrwyydd o'r Dydd hwn a wneir yn eu Tai hwynt, yn mha le, megys Rheolwyr y dylent ddwyn tyſtiolaeth er gogoniant Duw. A'r am hynny, pa ſodd bynnag y mae llawer o

Feiſtriaid

Penniaid Tafarnau yn gwenheithio iddynt eu hannain, ar ymill y maent yn eu hyfrid wrth ollwng diod, ac wrth ryngu bodd y rheini à anferont eu tai ar y Dydd ſanctaidd hwn o'r Arglwydd, ſe fydd cyfrif alarus ganddynt i'w wneud o'r diwedd o flaen Barnwr yr holl Ddaiar, pan wnein y peth yn eglur ddarfod iddynt gymmorthwyo llawer o bobl âg offerynnau i ymladd yn erbyn Duw, yn goddef iddynt ciſtedd yn eu tai yn feddwon ac yn afreolus, pan y dylaſent fod yn yr Eglwys yn gwaſanaethu Duw, neu 'n rheoli eu Teuluoedd eu hunain mewn Duwioldeb: A phâ gyfeillach bynnag a fo 'r awrhon rhwng y cyfryw rai ag ydd yn byw yn y camweddau drygionus hyny, a'r cyfryw rai ſy 'n aneog y peth ymlaen ſe a all dorri allan i gaſineb trageyddol yn y byd neſaf, ym mhâ le y gall y naill ddywedyd, "Ped *fuaſech heb ſy nerbyn* i i'ch Tŷ, ac heb "ollwng i *mi* dduad, *a rhoddi* i mi bethau eraill "nad oeddynt *yn angenrheidiol*, ond gwin wageddi "ac annuwioldeb, *myſi* a allaſwn gadw Dydd yr "Arglwydd yn *well*, a ſloi y lle hwn o boen a "phenyd." Ac, ar y llaw arall, y llall a all ateb, "Ped *fuaſech chwi heb* ddyfod yn aml i'm "*Tŷ* i ar *Ddydd yr Arglwydd*, am lleſtair i a'm "gweinidogion *rhag gwaſanaethu* Duw yn ei "Dŷ ef, a'm *Tŷ ſy hun*, nyni, yn yr un modd, "a *allaſem fod yn happuſach.*"

Bod y fath ddamcodau yn gyffelyb i fod yn y byd neſaf, (ym mhâ le y gwêl pob un yr ynfydrwydd a'r drygioni o bechu yn erbyn Duw) ſy

bur

[illegible] oddiwrth yr hyn a welwn mewn pobl hygaeth pa rai y mae Duw yn gweled yn dda eu hagor ymma ar y Ddaiar.

Myfi a adwaenwn Wr bonheddig, yr hwn, ar ol clefyd trwm, yn dwyn ei hun i newyddeb bythold, a yrrodd am Feistr y Dafarn, lle y gwariasei lawer o amser, a llawer o Ddyddiau yr Arglwydd yn ofer, ac ar faith edrychiad ag a meuyth iddo grynnu, efe a'i ceryddodd yn greulon am gymmwys Cwmpeini i yfed ar *Ddydd yr Arglwydd*, neu ar unrhyw Ddydd arall i anghymmedroldeb, ac a roddodd iddo y faith fiars gymhyrfus i wellhau rhag llaw, ag a'i dythrynnodd bob tro y meddyliodd am dano, fel yr addefodd y dyn ei hun ar ol hynny.

1. Na ddywedwch gan hyny, pa niwed yddyw gollwng diod i'r fawl a'i gofynnant ar Ddydd yr Arglwydd? Gan mai os an-angenrheidiol a fydd hynny, nid all fod ond yn dra pechadurus; canys yn y golau, y mae yn eu gwneud hwy a chwithau gam-drefnio Dydd yr Arglwydd; ac yn bur aml yn achos o afreolaethau a throfeddiadau ereas arno.

2. Na ddywedwch, y collwch eich bywioliaeth wrth gadw y rhann hon o'th dyledfwydd; ond cofiwch ddarfod i Dduw addaw i lawer rann ddyblygiad *Manna* ar y Dydd o flaen y Sabbath, er deunydd y rhai hynny a'i casglwodd, *Exod.* pen. xvi. adn. 29, A ficrhewch eich hunain na chollwch

wch

wch ddim wrth wasanaethu Meistr mor ddaionus.

3. Na ddywedwch, mae eraill yn gollwng diod ar y Dydd hwn, a pha ham y peidiaf i? Gwybyddwch, mai cyfraith Duw, ac nid ymadfer eraill, sy raid bod yn Rheol imi, os gwyllysiwn fyned i Deyrnas Nefoedd.

4. Na ddywedwch, mai os pechod ydyw, mai chwi eich hun sy raid atteb am dano, ac nid neb arall: Na, na, Ddyn cyfeiliornus; gwybydd fod pob pechod public yn sarhaad public; hynny yw, y mae yn peri i eraill syrthio i bechod; dirmyg cyffredin ydyw i Grisianogrwydd, ac achosion blinderau public.

O herwydd pa achos, gan hynny, peth Pw ewyllysio yn fawr ydyw, y byddai i bawb wrthwynebu yr halogrwydd o Ddydd yr Arglwydd trwy bob moddion cyfreithlon a chynghorol, gan ei fod yn tueddu yn union i ddianrhydedd Duw, diflanniad Crefydd, a diniwed y Daioni cyffredin: Am hynny ymwrolwch, ymgodwch chwi, Swyddogion plwyfol, sef Wardeiniaid, Cwnstabliaid, &c. ac, yn Enw Duw, gwnewch eich dyledswydd heb ofn nac arswyd dynion drwg, anfoesol, ac annuwiol; ond os llwfrhewch, ac os esgeuluswch gadw Dydd sanctaidd yr Arglwydd yn weddus ac yn drefnus, nid ydych yn cynnawn y llwon a gymmerasoch. Am hynny, gwelliwch; a gwybyddwch, mai pechadur echryslon yw Anudonwr.

Pawl.

Parod iawn ydym eu gyd i ofod dwylo ar y cyfryw rai a dorrant unrhyw gyfraith fy 'n perthyn i ni ein hunain. Os dwg neb oddiarnom unrhyw beth bychan, yr ym yn codi ein cymmydogion, a'r holl awdurdod â allom i ddal y lleidr, ac ydym yn rhwymedig i'w gofpi yn ol y gyfraith: Ac yn ddiammau yr ydych yn gwneuthur yn dda yn hynny; canys i gynnhwyfo y fath Drofeddwyr fydd anghyfiawnder i'r cyffredin, ac yn greulondeb i'r diniweid. Ond etto, pa ham yr ym ni mor hwyrfrydig, ac mor anewyllyfgar i amddiffyn, trwy foddion priodol a fynhwyrol, anrhydedd Duw, yn erbyn y fawl a halogant ei Ddydd fanctaidd, a'i Enw ef? Ai pethau yfgafn ydyw'r rhai hyn? Onid oes gan Dduw iawn a thitl i'w Ddydd ei hun? Neu 'n hytrach, onid y gwir achos ydyw, am nad ydym mor deimladwy o drofeddiadau yn erbyn Duw, ag ydym o'r rheini yn ein herbyn ein hunain? Ond cyfiawr drwg iawn ydyw hwn, ac arwydd eglur, nad oes ganddom y cariad a'r purdeb hwn i Dduw, y rhai a ddylei pob gwir Griftion ei meddiannu. Gadewch ini, gan hynny, ddeffroi a chynnhyrfu ein hunain i wneud yr Anrhydedd hwn i Dduw, neu ni anrhydeddir byth monom ni ganddo ef; na wrthwn ac na phrynwn ar Ddydd fanctaidd yr Arglwydd er dim. *Na wna ddim Gwaith*, medd ef: Chwi, Rieni, dyfgwch i'ch plant gadw Dydd yr Arglwydd, a byddwch ofalus am ddyfod gyd â hwynt yn gyfannedd i'r Eglwys, yn lle gadael iddynt grwydro, a gwneuthur drwg, rhag iddynt fyw Ddydd eich rhegu am eich efceuluftra yn eu dwyn i fynu yn ofn ac addyfg yr Arglwydd.

I ddi-

I ddibennu: Mae Dydd yr Arglwydd yn ei Ordinhaad yn Ddydd o Fendith, ac o Ddaioni annherfynol i Ddynion; i Ddynion à allant, trwy eu ſeguryd a'u halogrwydd, droi eu bendithion yn felldithion: Ond megys mai ynſydrwydd mawr yw hwn ynddynt, felly ſe a ddiwedda mewn triſtwch a phenyd garw iawn, yn enwedig pan fo'r Dyddiau hyn o Fab y Dyn troſodd: Pan gauo Angau Ddydd Grâs a Thrugaredd i fynu, ar ol hynny ni bydd dim Sabbathau mwy, dim Sacramentau, dim Pregethau, na Gweddiau tros byth. Dyna'r amſer yr ewyllyſia y Dyn halog, etto yn ofer, am adferiad yr hyn a gollodd byth bythoedd am ddirmygu Dydd yr Arglwydd; fel *Eſau* yn ymbil â dagrau yn ei Lygaid, (ond i ddim pwrpas) am gael y fendith a werthaſei am dammaid cnawdol.

Oh! Frodyr Caredig! Adnabyddwch eich rhag gorfreintiau Criſtianogol, anchwanegwch eich Sabbathau bendigedig ac amſeroedd gwerthfawroccaf Grâs Duw; mae'n Dydd Bywyd à Grâs wedi ei *dreulio yn mhell*, ac y mae'r *Nôs yn agos*: Gadewch i hyn ein pryſuro, yn yr oriau diwaethaf hyn o'n Dydd, *i ddarparu y pethau a berthynant i'n Heddwch tragwyddol*, rhag ofn iddynt cyn bo hir, gael eu cuddio oddiwth ein Llygaid, ac i ninnau gael ein difuddio o'u mwyniant hwy.

Ychydig o Gynghorion *i gadw'r* SABBATH *yn ddibalog, yr rhain a genir ar Feſur* Greece *and* Troy.

1.

MYfyriwch holl Griſt'nogion, a gwiliwch rhag i'r
Arferu drwg ddichellion creulon croes [galon,
Neu droi o ffordd cyfiawnder, yn ifaingc drwy fyw
Y Dyn a ſuddo i'r dyfnder, ceiff lawer loes; ['n ofer,
Ni chadwodd Duw moi Angel am bechu 'n wyneb
Cadd hwnnw drafel drud: [uchel,
Ac etto mae 'n rhyfygus am ddenu dynion dawnus
I ddyrus farus Fŷd.
Y gelyn fydd yn effro, ar hyder pawb yn rhodio,
Gan geiſio rhwyſtro rhai.
Fe dynnodd *Adda* o'r berllan, ag *Eſa* ei wraig yn
Am wneud yn fuan Fai. [gyfan,

2. [mewn chwe diwrnod,
Pan luniodd Gwir Dduw 'r Drindod y Nefoedd
Trwy Ràs a'r Ddaear iſod mawrglod maith,
A'r holl Greaduriaid cynta gafodd *Adda* ac *Eſa*,
Trwy foddion o'r ufudda, tecca taith;
Pan wnaeth yr Arglwydd nefol bob peth oedd ang-
Yn hyn o foddol Fyd; [enrheidiol,
Cadd *Adda* arglwyddiaethu ar bob anifail mwyngu
Cadd Wraig i'w 'mgleddu 'n glyd;
A'r Arglwydd Dduw pan welodd, a dd'wedai mo'
Fe 'i lliniodd yn eu lle; dda ydoedd,
Wrth feddwl am a wnaethe, y ſeithfed dydd, rhai
Gorphwyſe ei fodde eſe. adde
A'

3.

A'r ſeithfed pan orffwyſodd, efe a'i doeth fendithiodd,
Gorchymyn mawr a roddodd! i Raddau 'r Byd:
Pan ddeuai 'r diwrnod hwnnw, am iddunt godi i'w [gadw.
Pawb ydoedd ar ei ddelw yn groew o'i grŷd,
Ni roed mo'r Diwrnod yma i'r dynion wâg rodiena,
A gwledda bawb yn glau;
Fe 'i ordeinied i fyw 'n ſanctaidd, a dilyn Duw rhag
Yn rhyfedd i barhau. [dialedd,
Dydd ydyw gwedi ei roddi, da gwyddon i dd'weud
A hyn mewn difri daith. gweddi,
Y rwan pob Gyn'lleidfa, arſerant y Dydd yma,
Yn ddihira yn ſtwra o'r ſaith.

4.

Fe 'i ordeiniwyd ar y cynta i gofio i *Adda* ac *Eſa*,
Addoli Duw goruchaf yn benna byth;
Neu roddi anrhydedd iddo am ddilys waith ei
Yn gwneud y byd ag s'ynddo i'w ſoddio fyth. [ddwylo
Yn ail, ſe 'i cyfnewidied yn amſer yr *Iſraeliaid*,
Gan dlowned oedd y Llu.
Yn mynd o'r *Aipht* aniddan trwy 'r lliwdeg gefnfor
I'r burlan *Ganan* gu. llydan
Yn drydydd, gwedi hynny, pan adgyfododd *Ieſu*,
Ei adnewyddu a wnaed,
I gofio *Criſt* yn gyſion, mewn doniau am brynnu
Trwy golli ei wirion Waed. [dynion

5.

Y diwrnod hynod hwnnw, cyfododd *Criſt* o farw,
Fe ddylen godi i'w gadw 'n loew lân,
Trwy ddarllain ei orch'mynion, a gwilio chwant y
Gwneud pawb o'r ddiſriddwyfron gyſon gân, [galon,

Addoli'r gwir Dduw nefol, trwy beidio â'n golud
Nid gweddol ydyw 'r gwaith; [bydol,
Ond dyfod pawb yn ufudd, neu glofio i rai o 'glwy-
Ein Crefydd dedwydd daith: [fydd,
Os treulio 'r Sabbath ſanctedd, neu ei fwrw mewn
Or diwedd beth a dâl? [oferedd,
Digio 'r anwyl Dwyſog, neu'n llywydd Holl-alluog,
Cawn fynd dan Swyddog sâl.

6.

Ond dyma 'n dull ni beunydd, pan ddelo dydd yr
Ei olud yw Duw'r Cybydd, awydd yw; [Arglwydd,
Y Meddwyn yntau 'n yfed, ac eraill am y merched,
A dyna 'r modd 'rwy 'n tybed, digied Duw,
Y Cybydd ceir ei weled ym myſg ei anifeilied,
Mae arno ddyled ddŵys;
Hyd farw dyna ei fwriad, a'u gadel, Duw fo 'n geid-
Cyn mynd i'r gaead gwys! [wad!
Y Meddwyn mewn tafarnau oer ſylwedd ar y Suliau,
Yn arfer chwarau chwith;
Godineb yn ymdanu, hyll egredd er ein llygru,
Sydd gwedi plannu i'n plith.

7

Rhai gyrchant i'r Eglwyſydd fel dynion gryſion gre-
I dremio ar ddillad newydd, ffydd ry ffôl; [fydd,
Fe adwaenant wiſgiad pennau, a lliwdeg wŷch ddi-
Ni chofiant ddim o'r geiriau, fal parau *Paul.* [lladau,
Arall fydd â'i Lygad yn gwyro at ei Gariad,
Fo â'i throiad yma a thraw;
Ac eraill ar eu gorau yn ſiarad ar amſerau,
Yn lle cadw Llyfrau i'w llaw;
Bydd eraill mor wradwyddus yn hepian, gwaith an-
Yn 'r Eglwys rymus râd! [hapus,
A'r llall yn blino ei galon, gan filoedd o ryw ofalon,
Ar Ddydd ei dirion Dâd.

Er

8

Er dyfned y gorch'mynion, er daued ſo'r gweddion,
Er bod Pregethau doethion i'w llon wellhau;
Pan ddelont allan gynta, cewch glywed y gyn'lleidfa
Yn ſiarad o'r pryſura, gyrfa gau,
Fe fyddant ar eu gorau, yn goſod rhyw negeſau,
Gan draethu chwedlau chwith;
Bydd rhai am brynu a gwerthu, ac eraill fydd am garu,
Pob drwg yn plannu i'n plith;
Ychydig fydd, o ſyweth! yn cofio Tecſt y Bregeth,
Athrawiaeth Un a Thri;
Am un a'i cofia'n groew, bydd miloedd yno am elw,
Mae hynny 'n arw i ni.

9

Rhai 'n treulio'r dydd o'i ddechrau ar ſir, a chwrw, a chwarau,
A'r lleill yn diogi gartrau, moethau mawr,
Pwy fydd yn darllain llyfrau, efo'i deulu fel y dylau,
Neu 'n myned mewn Gweddiau ar Liniau i lawr?
Pwy ſy'n ei dreulio er mawr-lles 'nol meſur cyfraith *Moſes*,
Gan geiſio er Lles wellhâd?
Pwy ſy'n ei gadw 'n ſanctedd mewn parod gariad puredd,
I GRIST, a'i ryfedd râd?
Ond llawer eiff yn gryno i'r Deml i ragrithio,
Neu rith gweddio ar Dduw;
Oddiallan yn dra hyfryd, â'r galon mewn chwant golud,
Frycheulud, fraenllud friw.

10

Y rwan, Bechaduried, nid rhaid ond yſtyr doſted,
Y poenir y trueinied, trwy ludded loes,
Pan fyddo'r *Arglwydd* IESU, trwy burnerth yn ein barnu,
Yr anwir eiff o'r naillu, gan grynu'n groes,

Mynegi'r diwrnod hwnnw, trwy wayw a chûr yn
" O, Dduw! mae 'n arw i ni, [chwerw.
" Na b'aſen gynt yn 'r Eglwys, yn troi, fel dynion
" I wneuthur d' 'wyllys di; [downus,
" Dy Ddydd a halogaſon, direſwm ni doraſon
" Dy Orch'mynion cyſion coeth;
" Yr awr-hon rhaid yw diodde, neu redeg at ruade
" Uffernle, pantle poeth."

11

Coſiant pan fo'r cyſion, yn myned, gwmni mwynion,
At ſiloedd o Nefolion gwynion gàd; (*ſef llu,*)
A nhwythau i'r ffwrn uffernol at Ddiawl a'i deulu an-
Lle gweuddant yn drag'wddol, hudol hâd [farwol.
Ac yno byth heb ddiben, gan lafur yn wyloſen,
Am ddigio 'n Perchen pur;
Fe 'i teſlir i benydio, i'r Du-lyn dan eu dwylo,
Cân grio ag wylo o gur.
Gwae nhwy! yr amſer hwnnw, mewn llawn oferedd
A ſyrthio i'r berw o boen, [farw,
Nad aethant, yn eu dyddiau, i'r Eglwys bêr aroglau,
O barch i Raddau 'r Oen.

12

Bechadur, dychwel unwaith cyn myndi golledigaeth,
Mae dydd dy Iechydwriaeth ar feth i fod.
Yn awr mae *Paul* yn traethu, yw'r amſer ſydd gym-
Tro dithau'n wâs i'r Jesu, cei glymu ei glôd. [radwy.
Os cau 'wna drws trugaredd, cyn iti yno gyredd,
Bydd ffiaidd iawn dy ffau,
Yn nail i'r ffol Forwynion 'ddoe geiſio (beth a gowſon?)
DUW cyſion ſu i'w naccau.
Ow, deffro! Griſtion dedwydd, a chadw ddydd yr
Ein Llywydd hylwydd hên; [Arglwydd,
Dod un o ſaith o'r dyddiau, yn aberth dros bechodau,
A CHRIST a'i maddau, *Amen.*

HUGH JONES, Llangwm, a'i cant.

Cywydd y BEDD.

YStyriaf hyn o 'ſtori,
Y Byd oll, a'm Bywyd i,
A'r lle 'r wyf, deall oer ym,
Oerllyd Iaith, a'r lle daethym!
A'r lle 'r af i'r llawr afiach,
Wedi 'r Byd ennyd awr bâch.
Wrth ddeall araith ddiwad,
Einioes dyn ſydd wan ei ſtâd:
Nid fi ſy hun yn unig,
Yn y byd hwn enbyd dig,
Pan ſo 'r Corph, poenfawr y caid,
I'm wahanu â'm Henaid.
Er dy gyſion Ddaioni,
Er dy fawl, pura, Duw, fi!
Fel yn ol ſywiol fywyd,
Yr elwy fi i'r ail Fyd.
O'm Monwes y cyffeſaf
Ddull ſy Medd! a'r Wedd yr af;
Y Corph, aflonydd y caid,
Yw Twr Einioes, Tŷ 'r Enaid.
Ac Einioes Dyn, heb gwyno,
Fel Munud ei Fywyd ſo.
Nid wrth bryd naturiaeth bron,
Yr eſtynir oes dynion;
Dwſt yw 'r Corph, diyſtyr caid,
Di-rinwedd, Duw yw 'r Enaid:
P'Enaid eiſſ i fynu,
Y Cnawd pryfaid a'i cnu.

Ni ŵyr pwyll ſynwyr y pen,
Angau odſa dyngbedſen.
Gwybod na chanfod ni chaf,
Tu a'r ſan y terſynaf,
Na pha angau tau tuedd
O gwrr byd am gyrr i'm bedd,
Nac i ba fedd chwerwedd chwyrn,
Ar waſgar yr a f'eſgyrn;
Os ei agor, neu dorri,
Os gwaël fydd nis gwela fi,
Na pha fyd, na phwy a fo
O ddynion am rhydd yno.
Nis gwn pe llithrwn fy llw,
Hanner dyſnderoedd hwnnw.
Na thôn, na dyſais, na thyb,
Na meichiau Bŷd ni'm hachub!
A Dydd Brawd y daw 'r gwawdydd!
O'r byd trangc i'r bywyd rhydd.
Pwy a chwardd ebwch oerddig?
Pa gorph, pa eſgyrn, pa gig?
Nad yſtyr ſwydd doſtyr ſôn,
Ac wylo 'r dwr o'i galon!
Nid oes dewr, od yſtyria
Y ffordd hon, na phrnddha,
Rhag ofn y Farn ddofn a ddaw
O'r bedd, heb ei rybuddiaw;
O'r un pridd caeth i'n gwnaethpwyd,
Un pridd a'n gilydd i gyd!
Fy nghnawd gwynn irwyn oerwedd,
Y Prŷ a'i bwytu 'n y Bedd,
A'r llwybr yw lle bu 'r Awen,
Llwybr tau lle 'r pryfed hên!
A'r mwya a'm câr alarydd,
Yn y ſan difraw iawn fydd.

Ni'n

Ni'm hannerch un Ferch a fydd!
Ni'm câr un o'm carennydd!
Ni ddaw fy Ngwraig hoew faig hy,
I ngolwg yn fy ngwelu!
A'm gordderch, blodau gerddi,
Waela fodd, ni wela fi!
Na'm Cymdeithion cwynion cu,
Yn troi mhen, ond trwm hynnu!
Na Gwên nag Awen a gaid,
Na lle i agor fy llygaid!
Na rhoi Anrhydedd na Gweddi,
I'm un Duw â'm Enaid i!
Ni'm gwel dyn, o'm Gwlad unwaith,
Ni'm clyw 'run o'm claear Iaith!
Nag atteb er neb yn ol
Dawn wybodaeth dyn, bydol!
Lle ni cheir edifeirwch,
Lle ni ddaw fy llaw o'r llwch!
A'r galon fy lon dan Law
Yn y ddwyfron yn ddifraw.
Pa bwll dwfn, pabell difalch?
Pwll garw bant, pell ogor balch.
Porthor Côr angor angau,
Porth hun gwsg, porth hên ag iau.
Un hud yw'r hun gytunoed
I'r cyntaf, a'r ieuangaf erioed.
Carchar sâl, cyrch yr oes hon,
Ar ogwydd pawb i'r cigiôn!
Oer waith dig wyt wrth dy gau,
Oer Larwm yr Elorau.
Drws ag ogof dros gwiwgorph,
Drws hên, er cau dryfni 'r Corph.
Aeth yno yn noeth unawr,
Derm oes *Alecfander* mawr!

I ti digwydd Arglwyddi,
A'r Duwc dan dy faner di;
A'r beger i'r un gweryd
A'r Iarll a fae ar holl fyd!
Ni'th werthir dofir difalch!
Ni phryn y Byd ben ffirwyn balch.
Bol budreddi i fraenu 'r fron,
Bolchwydd y meirw gurph beilchion.
Buddau dywyll Bedd duoer,
Ceulan wâg pob calon oer;
Dichwerthin gethrin gaetharwyd,
Dilân wedd dilawen wyd,
Amlach wrthyt yn ymlyn,
Na chân tant ochenaid dŷm.
Amlach braw na dyn llawen,
Amlach gwaedd afiach na gwên.
'R hyd y Farn rhaid yno fod
Dan gwſg, a Duw 'n gyſgod!
Ond ſe 'n cŵyd eip Iôn cadarn,
O'r ddaear fyddar i'r Farn.
Mewn dychryn a 'r Corphyn cu,
Rhan waeledd, o'r hen Welu,
I dderbyn Barn gadarn go,
Gwirionedd a gair yno.
Gobaith, hoff iawnwaith, a Ffydd,
A Chariad, yw 'r tair Chwiorydd;
A CHRIST o'i fodd, fu 'n dioddef,
Digon yw a'n dwg i Nef.
Pan ddel pen fy llawenfyd,
Fy Nghorph a'm Henaid ynghyd.
Diniwed fwyn Gorph newydd,
Yſprydol, anfarwol a fydd!

Hâd

Hâd *Adda* ag Enaid iddaw,
O garchar Daear y daw.
DUW mawr! Rhyw awr y bo rhaid,
Erfyniaf, er fy Enaid,
Dwg fi o'r gadarn Farn a fydd
I holl wyneb llawenydd,
A graddau mawr goreudduw,
Gwir ddawn, a thrugaredd Dduw.

N. B. *Gwybyddwch nid o ran Cywraindeb y* Cywydd *uchod y gosodwyd ef yma, ond bod i'r Ystyr yn gammoladwy genyfi,*

BARDD Llangwm.

Myfyrdod i Ddyn Ifangc ar y Sabbath.

1

CODAF, arferaf ar forau --- Sabbath,
Fy ſyber Weddiau;
Rhof i'r Drindod, trwy Glod glau,
Ddyledus Addoliadau.

2

Dyn ifangc wyf, O Duw Nefol! --- Heddyw
Dy Haeddiant yſprydol,
I ochel Hoedel hudol,
Ar dy Ddydd, nag un Ffydd ffol.

3

Mae 'r Gelyn gwydyn o'i Gader, --- ffyrnig,
A ffwrnes Creulonder;
Dyna ei Swydd dan y *Sêr*,
Anafu y Dynion ofer.

4

Duw Naf, mi ganaf â'm Genau; --- Melys
Y molaf dy ddôniau;
Duw 'n beraidd yw dawn borau,
A phrydnhawn yn llawn wellhau.

5

Nid arfer mewn un Dyrfa --- Y Ddelw,
Neu ddilyn Puteindra;
Yn feddw fi ni fydda,
A lle bo 'r Dyn â Llwybr da,

6

Hedaf o Lwybrau hudol, --- Neu gilwg,
Y Gelyn uffernol;
Dan d' Adain CRIST a'm didol,
Trwy Ffydd gref, i Nef yn ol.

H. JONES, Llangwm, *a'i cant*

DIWEDD.